

23/04/2026

Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru: Datganiad ar gyfrinachedd a diogelwch data



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynnwys

Cynnwys.....	2
Datganiad ar gyfrinachedd a diogelwch data	3
Cyflwyniad.....	3
Cyfrinachedd data	3
Ymatebion i'r arolwg	3
Ymholiadau a chwynion.....	3
Diogelwch Data	3
Rhannu data a chysylltu data	4
Cyfyngu ar fynediad at ddata.....	4
Rheoli datgelu ystadegol	4

Datganiad ar gyfrinachedd a diogelwch data

Cyflwyniad

Mae'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#) yn disgrifio'r safonau y dylai sefydliad eu dilyn i fagu hyder yn y bobl a'r sefydliadau sy'n cynhyrchu ystadegau. Mae Safon 4 yn disgrifio sut i reoli data yn gyfrifol, gan gynnwys sut mae ystadegau i'w defnyddio'n ddiogel ac yn ddiogel.

Cefndir

Mae Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru yn cael ei gynnal gan y ganolfan genedlaethol ar gyfer ymchwil gymdeithasol NatCen ar ran Trafnidiaeth Cymru (TrC).

TrC yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil ac mae'n derbyn y wybodaeth a gesglir gan NatCen. Defnyddir y wybodaeth at ddibenion ymchwil ac ystadegol yn unig. Bydd yn cael ei defnyddio i gynhyrchu bwletinâu ystadegol ac adroddiadau ymchwil. Mae'r bwletinâu a'r adroddiadau yn ymwneud â phoblogaeth Cymru yn gyffredinol, nid am bobl unigol. Bydd yr arolwg yn casglu data personol yn ogystal â data nad yw'n cael ei ystyried yn ddata personol o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y Deyrnas Unedig.

Cyfrinachedd data

Ymatebion i'r arolwg

Casglir gwybodaeth yr Arolwg Teithio Cenedlaethol er budd y cyhoedd. Mae'r wybodaeth a ddarperir gan ymatebwyr yn gyfrinachol ac nid yw'n cael ei throsglwyddo i unrhyw un y tu allan i NatCen neu'r adran ystadegau yn TrC mewn ffurf y gellid ei defnyddio i'w hadnabod.

Ymholiadau a chwynion

Pan fydd ymatebwyr yn codi ymholiadau neu gwynion am yr arolwg naill ai gyda TrC neu NatCen, ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir yn cael ei rhannu y tu hwnt i ddim ymchwil yr arolwg. Bydd y data a brosesir yn cael ei ddileu o fewn blwyddyn i'r ymholiad gael ei drafod neu i'r gŵyn gael ei datrys. Ni fydd unrhyw wybodaeth a rennir fel rhan o ymholiad neu gŵyn yn rhan o ddata'r arolwg ar unrhyw adeg.

Diogelwch Data

Mae gan gyfwelwyr gwaith maes a chodyddion o bell (sy'n cynnal mewnbynnu data ar gyfer y dyddiadur teithio all-lein) liniadur gwaith pwrpasol ac mae data yn cael ei drosglwyddo'n uniongyrchol trwy NatCen trwy gasgliad rhynggrwyd diogel. Mae'r gliadiuron hyn wedi'u hamgryptio gyda PGP, ac mae ganddynt fewngofnodi cyfrif diogel (a reolir trwy gyfeiriadur gweithredol Microsoft). Maen nhw'n gofyn am newidiadau cyfrinair bob 30 diwrnod. Mae gan y gweinyddwyr y mae'r data yn cael ei uwchlwytho iddynt fesurau diogelwch uchel ar waith ac

mae mynediad wedi'i gyfyngu i'r timau perthnasol. Cynhelir y datblygiad yn unol â'r ISO27001 ar gyfer Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch.

Rhannu data a chysylltu data

Fel rhan o'r Arolwg Teithio Cenedlaethol, gofynnir i'r ymatebwyr a ydynt yn fodlon cael eu hailgysylltu gan TrC neu Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau ymchwil yn y dyfodol. Pan fo ymatebwyr wedi cytuno i'r manylion cyswllt cyfyngedig hyn bydd manylion cyswllt cyfyngedig yn cael eu rhannu â thimau perthnasol at ddibenion ymchwil cymeradwy.

Mae ymatebion i'r arolwg yn cael eu cysylltu'n ddiennw â ffynonellau data eraill fel rhan o'r banc data Cysylltu Gwybodaeth Ddiennw Diogel at ddibenion ymchwil anfasnachol. Gall ymatebwyr dewis atal eu hatebion rhag eu cysylltu wrth gwblhau'r arolwg.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses cysylltu data ar gael [yma](#).

Mae gwybodaeth lawn am gyfrinachedd, diogelwch, rhannu a chysylltu data ar gael yn [hysbysiad preifatrwydd](#) Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru.

Cyfyngu ar fynediad at ddata

Mae mynediad at ddata cyfrinachol sy'n gysylltiedig â'r Arolwg Teithio Cenedlaethol wedi'i gyfyngu i'r tîm ymchwil a staff NatCen a TrC sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chynhyrchu ystadegau'r arolwg. Mae'r staff hyn wedi'u hyfforddi'n llawn ac yn deall eu cyfrifoldebau o dan gyfreithiau diogelu data.

Gall ymatebwyr nodi eu bod yn fodlon cymryd rhan mewn ymchwil pellach a gynhelir gan TrC neu Lywodraeth Cymru. Dim ond rhwng timau y caiff data ei rannu'n ddiogel, a gyda derbyn cytundeb rhannu data.

Rheoli datgelu ystadegol

Er mwyn sicrhau nad yw'r data rydyn ni'n ei gyhoeddi yn adnabyddadwy, rydym wedi cymhwyso rheolaeth datgelu ystadegol i'n hallbynnau. Mae celloedd yn cael eu talgrynnu i luosrif o bump i ychwanegu ansicrwydd at wir werth celloedd bach. Gellir atal data lle mae gwerthoedd yn fach er mwyn osgoi datgelu.